

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	ADNODDAU A CHORFFORAETHOL
DYDDIAD Y CYFARFOD	11 CHWEFROR 2010
TEITL	STRATEGAETH ARIANNOL 2010/11 - 2012/13
AWDUR	Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol
ARWEINYDD PORFFOLIO	Cynghorydd Dylan Edwards
Beth sydd angen ei graffu a pham?	Mae angen craffu'r tybiaethau a wnaed wrth sefydlu'r gyllideb ac yn benodol ystyried y materion a grybwyllir yng nghymal 10.
Beth yw'r camau nesaf?	Bydd yr adroddiad ynghyd â phenderfyniadau'r Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd er mwyn iddo ystyried pa argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cyngor.

1 CEFNDIR

- 1.1 Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, yn dilyn argymhellion gan y pwyllgor hwn, bu'r Bwrdd yn ystyried y sefyllfa gyllidol debygol ar gyfer y cyfnod 2010/11 - 2012/13.
- 1.2 Y sefyllfa a adroddwyd bryd hynny oedd diffyg cyllidebol tebygol yn 2010/11 o £4.2m (a hynny ar ôl ystyried effaith cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor). 'Roedd y gwasanaethau wedi adnabod arbedion o tua £4m i gwrdd â'r diffyg yma fyddai'n golygu fod modd i ni ddygymod a'r sefyllfa yn 2010/11.
- 1.3 Nodwyd bryd hynny'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r gyllideb, ac mae'r adroddiad yma yn nodi unrhyw newidiadau a fu yn y cyfamser ac yn adrodd ar y sefyllfa gyda'r eitem "bidiau" a gynhwyswyd yn y gyllideb ddrafft.
- 1.4 Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, penderfynodd y Bwrdd -
 - (a) Cymeradwyo argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu, sef:-
 - (i) Derbyn y strategaeth gyffredinol a'r tybiaethau;
 - (ii) Cytuno fod unrhyw swm sydd ar ôl yn y gyllideb wrth gefn yn cael ei glustnodi ar gyfer cwrdd â'r diffyg yn y gyllideb cyfalaf;
 - (iii) Cytuno gyda'r strategaeth i sicrhau bod adnoddau digonol yn y reserf diswyddo ac i sefydlu reserf trawsnewid ar gyfer y Cyngor;
 - (iv) Amcanu i gael cynnydd o 4% neu ychydig yn llai os yn bosibl yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2010/11, gan anelu i beidio cynyddu'r arbedion fydd angen eu canfod;

- (b) Gofyn i swyddogion i daflunio effeithiau amrediad o 3% i 5% o Dreth Cyngor, i'w cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir ym mis Chwefror.
- (c) Bod y Gweithgor Trawsbleidiol yn cyfarfod yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn edrych ar y gwaith lobio, ac i geisio uchafu'r gwaith.

2 SEFYLLFA DERFYNOL 2010/11

- 2.1 Dyma bellach yw'r ffigyrau cyllidebol a ragwelir ar gyfer 2010/11 (nodir y gymhariaeth gyda'r hyn a adroddwyd ym mis Rhagfyr) -

Tabl 1
Cyllideb derfynol 2010/11

£'000	Adroddwyd yn Rhagfyr	Cyllideb Derfynol	Gwahaniaeth
Cyllideb Sylfaenol	211,839	211,839	-
Chwyddiant cyflogau	1,650	1,648	(2)
Chwyddiant arall	889	889	(-)
Praeseptau	190	102	(88)
Incrementau	266	179	(87)
Llog ar falansau	300	300	-
Costau Cyfalaf	(285)	(285)	-
Demograffi - plant	-	-	-
Demograffi - Henoed	107	231	124
Lleihad cyllidebau incwm	263	253	(10)
Amrywiol	863	667	(196)
Trosglwyddiadau	1,276	1,369	93
Bidiau	2,887	2,778	(109)
Cyfanswm gofynion	220,245	219,970	(275)
Grant Cynnal Refeniw	(170,197)	(169,919)	278
Treth Gyngor (heb gynydd)	(44,854)	(45,509)	(655)
Diffyg i'w ddarganfod drwy'r Dreth Gyngor & Arbedion	5,194	4,542	(652)

- 2.2 Mae'r ffigwr sydd angen ei ddarparu ar gyfer praeseptau, incrementau a demograffi henoed wedi newid ychydig yn sgil derbyn y ffigyrau diweddaraf.
- 2.3 Gostyngwyd y ffigwr "amrywiol" yn sgil yr angen i wneud darpariaeth lai na'r disgwyl yn y gyllideb yn sgil allanoli'r Cyfrif Refeniw Tai (gweler rhan 4 isod). Mae'r ffigwr wedi gostwng hefyd gan i ni elwa tua £52,000 oherwydd yr ail brisiad trethi.
- 2.4 Fe welir hefyd fod y ffigwr Grant Cynnal Refeniw wedi gostwng, ond y rheswm am hyn yw bod ein sylfaen Treth Gyngor wedi cynyddu mwy na'r cyfartaledd ar draws Cymru (yn sgil y penderfyniad gan y

Cyngor i drethu adeiladau gwag). Mae'r ffigwr grant yn disgyn o'r herwydd yn unol â mecanwaith y gyfundrefn. Fe welir cynnydd yn yr incwm a geir o'r Dreth Gyngor i wneud yn iawn am hyn. Gyda'i gilydd 'rydym wedi elwa £377,000.

- 2.5 Bydd yr aelodau yn ymwybodol wrth gwrs gan mai grant y Cynulliad sy'n gyfrifol am bron i 80% o wariant net y Cyngor mae ein gallu i wario yn cael ei yrru'n helaeth gan y ffigwr hwnnw. Nodir y sefyllfa gymharol gyda'r grant yn nhabl 2 isod -

Tabl 2
Cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw

£'000	Cyfartaledd Cymru	Gwynedd
Grant Cynnal Refeniw 2009/10	3,969,129	168,504
Grant Cynnal Refeniw 2010/11	4,050,591	169,919
Cynnydd	81,462	1,415
Cynnydd (%)	2.1%	0.8%

- 2.6 Fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn Rhagfyr, o ddiystyru'r newid yn sylfaen y Dreth Gyngor, byddai'r cynnydd yn cyfateb i 1.1%.

3 RHAGOLYGN TAIR BLYNEDD 2010/11 - 2012/13

- 3.1 Atgoffir aelodau ein bod yn ceisio cyllidebu ar gyfer 3 blynedd ar y tro er mwyn sicrhau cynllunio ariannol tymor canolig a nodir y tybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd hyd yma yn nhabl 3 isod -

Tabl 3
Tafluniad o dybiaethau cyllidebol ar gyfer cynllunio 2010/11 - 2012/13

2011/12

	Mwy Optimistaidd	Mwyaf tebygol	Mwy Pesimistaidd
Gwariant	£221.2m	£222.1m	£222.7m
Grant	£169.6m	£167.9m	£166.2m
Treth Gyngor	£49.1m	£49.1m	£49.1m
Diffyg	£2.4m	£5.1m	£7.4m

Arbedion a fabwysiadwyd gan y Cyngor = £4.533m

2012/13

	Mwy Optimistaidd	Mwyaf tebygol	Mwy Pesimistaidd
Gwariant	£223.4m	£223.7m	£223.2m
Grant	£169.6m	£165.9m	£162.8m
Treth Gyngor	£50.9m	£50.9m	£50.9m
Diffyg	£2.9m	£6.9m	£9.5m

Arbedion a fabwysiadwyd gan y Cyngor = £7.123m

- 3.2 Mae'r ffigyrau gwariant a ddefnyddir yn mynd i fod yn ddibynnol ar y lefel Dreth Gyngor y cytunir arno ar gyfer 2010/11 ond fel arall ni welaf ar hyn o bryd fod angen newid unrhyw rai o'r tybiaethau y tu ôl i'r tafluniadau yma.
- 3.3 Nodais y tybiaethau y tu ôl i'r tafluniadau yma yn fy adroddiad ym mis Rhagfyr a chymeraf y cyfle i atgoffa aelodau fod yna nifer o faterion fel y canlynol i gyd yn medru dylanwadu ar y sefyllfa -
- Cytundebau tal athrawon a'r gweithlu yn gyffredinol
 - Prisiad actiwaraid y Gronfa Bensiwn fydd yn weithredol o Ebrill 2011.
 - Lefel y gyllideb ychwanegol y bydd ei angen i gwrdd â phwysau ar gyllidebau (bidiau);
 - Setliad grant cyffredinol a rhaniad y gacen o ran y fformiwla.
- 3.4 Pe byddai chwyddiant cyflog yn wahanol o 1% byddai hyn yn creu gwahaniaeth o £1.5m. Pe byddai grant y Cynulliad yn newid 1% byddai hyn hefyd cyfwerth a thua £1.7m.

4 ALLANOLI'R STOC TAI

- 4.1 Wrth drosglwyddo'r stoc tai i Gartrefi Cymunedol Gwynedd fe fydd dewis gan y gymdeithas tai newydd i drefnu ei wasanaethau cefnogol ei hun neu i barhau i dderbyn y rhain gan y Cyngor (e.e. talu cyflogau, archwilio mewnol, hel arian, cynnal tiroedd, gwasanaeth cyfreithiol).
- 4.2 Mae trafodaethau yn mynd ymlaen rhwng rheolwyr y gwahanol unedau dan sylw a chynrychiolwyr y cwmni i geisio sefydlu pa wasanaethau cefnogol y byddant yn dymuno iddynt barhau a pha rai fydd yn dirwyn i ben.
- 4.3 Os na fydd y Cwmni yn dymuno parhau gyda'r gwasanaeth, bydd disgwyl i'r unedau leihau eu costau i gydnabod hynny lle mae'n bosibl, ond mewn aml i sefyllfa, oherwydd mai elfen fechan o waith unigolyn oedd y gwaith cyfrif refeniw tai; neu oherwydd bod y costau yn gostau sefydlog na ellir eu dileu, fe fydd yna elfen o'r costau yma yn aros gyda'r cyngor.
- 4.4 Mae yna garfan arall o gostau oedd yn flaenorol yn cael eu gosod yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai na fydd modd gwneud hynny bellach a byddant nawr yn disgyn ar Gronfa Gyffredinol y Cyngor. [Byddai costau aelodau yn un enghraifft o'r math yma o gostau].
- 4.5 Mae'r Pennaeth Cyllid wedi bod drwy'r holl gostau dan sylw ac wedi darparu adroddiad cynhwysfawr i'r Grŵp Arweinyddiaeth ar y mater. Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad hwnnw daethpwyd i'r casgliad y byddai'n rhaid i ni wynebu'r costau canlynol gan na allwn bellach eu hadennill oddi wrth y cyfrif refeniw tai na'u dileu -

Tabl 4 - Costau Cyfrif Refeniw Tai fydd bellach yn disgyn ar y Cyngor

	£
Cyfanswm ad-daliadau gan y Cyfrif Refeniw Tai	1,957,710
Costau y gellir eu dileu neu lle ystyrir y bydd CCG yn dymuno parhau a'r gwasanaeth	1,240,460
Costau na ellir eu harbed	<u>717,250</u>

- 4.6 Rhoddir rhestr fanwl o'r costau dan sylw yn Atodiad 1.
- 4.7 Ar ben hyn, mae'r Bwrdd wedi cytuno i strwythur diwygiedig ar gyfer swyddogaethau tai gweddilliol yn sgil allanoli'r stoc tai. Fe fydd hyn ynghyd a'r penderfyniad i ofyn i Gartrefi Cymunedol Gwynedd ymgymryd â gwaith wardeiniaid ystadau ac elfen o waith cefnogi pobl yn golygu costau ychwanegol o £243,940.
- 4.6 Gyda'i gilydd felly fe fydd yna gostau o £961,190 yn disgyn ar y Cyngor ond yn erbyn hyn fe fyddwn yn arbed £125,730 mewn costau cyfalaf sy'n golygu mai £835,460 fydd angen ei ddarparu yn y gyllideb ac fe wnaed hyn (gweler cymal 2.3 uchod).
- 4.7 Mae yna sefyllfa debyg yn codi hefyd gyda'r Gwasanaeth Darparu yn sgil y ffaith iddynt golli cytundeb glanhau Ynys Môn wrth i'r Cyngor hwnnw benderfynu cyflawni'r gwaith eu hunain yn y dyfodol.
- 4.8 Eto gwnaed asesiad o'r costau y gellid eu harbed a'r rhai lle na ellir gwneud hynny ac mae'r gwaith hwnnw yn parhau ond ar hyn o bryd ystyrir y dylid darparu £128,890 ar gyfer y costau hynny. Fe gynhwysir hyn yn y gyllideb sylfaenol.
- 4.9 Dylid hefyd bod yn ymwybodol fod y rheolau sy'n ymwneud ag allanoli tai cyngor yn golygu na chaiff y cyngor drosglwyddo unrhyw ddiffyg sy'n bodoli yn y Gronfa Bensiwn i'r corff newydd.
- 4.10 Ar hyn o bryd wrth gwrs oherwydd sefyllfa'r marchnadoedd mae sefyllfa'r Gronfa yn wan, ac mae yna ddiffyg yn bodoli ar gyfer pob cyflogwr.
- 4.11 Er na fyddwn yn gwybod union effaith hyn tan y dyddiad trosglwyddo (pan fyddwn yn cynnal prisiad o'r ymrwymadau), dengys asesiad cychwynnol y gallasai'r diffyg bod oddeutu £5m. Byddai hyn yn cyfieithu i gynnydd yng nghyfraniad cyflogwr y Cyngor yn y prisiad nesaf o tua 0.3% fyddai'n gosod mwy o bwysau ar gyllidebau 2011/12 a 2012/13.
- 4.12 Mae modd lleihau'r effaith refeniw drwy wneud cyfraniad unwaith ac am byth i'r Gronfa Bensiwn.

- 4.13 Pan fydd y Cyfrif Refeniw Tai yn trosglwyddo bydd unrhyw falansau yn aros gyda'r Cyngor ac awgrymir y dylid defnyddio hwnnw (ynghyd ag unrhyw gyfleoedd eraill allasai godi) i leihau unrhyw effaith ar y cyfraniad cyflogwr.
- 4.14 Yn sgil yr uchod wrth gwrs fe fydd cost uned nifer o'r gwasanaethau cefnogol yn cynyddu a gyda phosibilrwydd cryf y byddwn yn gweld mwy o wasanaethau yn cael eu darparu gan eraill yn y dyfodol, mae hyn yn codi'r cwestiwn o sut y mae'r unedau cefnogol am sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth am bris cystadleuol.
- 4.15 Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi comisiynu ffrwd gwaith i ddod a rheolwyr yr unedau yma ynghyd er mwyn iddynt ystyried hyn.

5 BIDIAU

- 5.1 O dan y pennawd bidiau fe ddarparwyd ar gyfer y symiau a nodir yn y tabl isod –

Tabl 5 - Eitemau y mae angen darparu ar eu cyfer

	£
Darpariaeth olaf ar gyfer benthyca darbodus	500,000
Bidiau anorfod gan wasanaethau	577,880
Datblygiadau Cynllun Tair Blynedd	250,000
Adolygiad cyllidebau 2009/10	1,450,000
Cyfanswm	2,777,880

- 5.2 **Darpariaeth olaf ar gyfer benthyca darbodus** - hwn yw'r cyfraniad olaf ar gyfer gwireddu strategaeth y Cyngor i osod adnoddau o'r neilltu er mwyn medru defnyddio'r gyfundrefn benthyca ddarbodus i fenthyca £23m i gyflawni ei strategaeth asedau 10 mlynedd.
- 5.3 **Bidiau anorfod gan wasanaethau** - yn unol â'r drefn bob blwyddyn gwahoddir Penaethiaid Gwasanaeth i nodi os oes yna unrhyw fidiau anorfod sydd angen eu hystyried er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth. Gyda'r rhai a gymeradwyir, sail hynny yw bod y risg o beidio â chymeradwyo cymaint fel ei fod yn anorfod fod angen buddsoddi. Nodir y rhain mewn adroddiad ar wahân gan y Pennaeth Polisi a Pherfformiad.
- 5.4 **Datblygiadau Cynllun Tair Blynedd** - gwahoddir bidiau anorfod er mwyn diwallu anghenion parhad gwasanaeth yn unig. Fodd bynnag mae yna faterion eraill datblygol sydd ddim yn disgyn i'r categori yma lle byddai'r aelodau yn ystyried efallai y dylid ei gydnabod am ei fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. [Er enghraifft byddai'r trafodaethau a gafwyd yn ddiweddar ynglŷn â pharcio i'r anabl yn disgyn i'r categori yma]. Y cynnig felly yw y dylid darparu £250,000 ar gyfer materion o'r fath.

Adolygiad Cyllidebau 2009/10

- 5.5 Wrth adolygu cyllidebau yn ystod yr ail chwarter daethpwyd ar draws problemau ym meysydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol.
- 5.6 Ym maes addysg fe welwyd fod y gyllideb integreiddio'n gorwario £776,000 yn 2009/10 ac y byddai'r effaith blwyddyn lawn o hyn yn 2010/11 oddeutu £1m.
- 5.7 Yn sgil y wybodaeth yma, comisiynwyd gwaith gan Archwilio Mewnol i weld sut yr oedd cynnydd o'r fath yn bosibl ac 'roedd y gwaith hwnnw yn awgrymu fod o leiaf hanner yn deillio oherwydd cynnydd yn y galw am wasanaeth ond fod yna rhywfaint o dystiolaeth fod rhesymau eraill yn gyfrifol am y gweddill.
- 5.8 Ystyrir felly fod yn rhaid cydnabod o leiaf £500,000 o'r swm yma fel cynnydd yn deillio o gynnydd niferoedd ond ystyrir hefyd ei fod yn amhriodol disgwyl i'r gwasanaeth ddygymod gyda'r gweddill i gyd ac felly argymhellir fod y Cyngor yn cyfrannu £750,000 at y gyllideb yma gan ddisgwyl i'r gwasanaeth gymryd camau i ddod a gweddill y gyllideb dan reolaeth.
- 5.9 Yn erbyn hyn, mae gan y gwasanaeth £150,000 o arian cludiant a roddwyd iddynt y llynedd ond lle na welwyd cynnydd yn y contractau cludiant fel y disgwyliwyd ac felly'r cyfraniad net fydd angen ei ddarparu fydd £600,000.
- 5.10 Yn ystod yr adolygiad ail chwarter fe welwyd y ffigyrau gorwariant canlynol hefyd ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol -

£'000	Gorwariant 2009/10	Effaith 2010/11
Gwasanaeth Plant a Theuluoedd	52	243
Anabledd Dysgu	352	823
Iechyd Meddwl	129	106
Cyfanswm	533	1,172

- 5.11 Mae £180,000 o'r gorwariant Anabledd Dysgu yn deillio o arbedion sydd eto i'w gwireddu gyda'r gweddill i weld yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys nifer uwch o gleientau (ar ôl darparu £300,000 allan o gyllidebau wrth gefn y Cyngor yn 2009/10).
- 5.12 'Roedd yr Adolygiad ar y Cyd yn awgrymu nad diffyg buddsoddiad oedd un o broblemau Gwasanaethau Cymdeithasol ond yn hytrach y defnydd a wneir o'r adnodd a ddarperir, sy'n awgrymu y dylem fod yn ofalus iawn wrth gyfeirio mwy o adnoddau i'r gwasanaeth. Serch hynny ni allwn gychwyn blwyddyn ariannol newydd gyda chyllideb sydd yn amlwg yn annigonol ac awgrymir felly ein bod yn cyfrannu

£850,000 tuag at y sefyllfa gan ddisgwyl i'r gwasanaeth gyfarch y gwedddill.

- 5.13 Mae hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau fod yna atebion trawsnewidiol yn cael eu darganfod ym maes gofal cymdeithasol ac yn pwysleisio pam mor sylfaenol yw'r adolygiadau strategol a'r cynlluniau i ddarganfod ffyrdd gwahanol o gyflawni swyddogaethau os am osgoi cynnydd parhaus yn y gyllideb.

6 GOFYNION UNWAITH AC AM BYTH

- 6.1 Fe welir o adroddiad y Pennaeth Strategaeth a Gwella fod yna anghenion cyllidebol unwaith ac am byth o £409,160 yn deillio o fidiau 2010/11.
- 6.2 Ar ben hyn, dylid bod yn fyw i'r ffaith fod arian cydgyfeiriant ar gael i hybu datblygiadau o fewn Gwynedd ac os ydym am fanteisio arno fel ffynhonnell adnodd grant i wella sefyllfa trigolion Gwynedd bydd yn rhaid i ni fedru darganfod arian cyfatebol ar gyfer rhai o'r cynlluniau.
- 6.3 Er mwyn sicrhau fod y gallu gennym i wneud hynny awgrymaf ein bod yn gosod £500,000 mewn cronfa ar wahân i'r Bwrdd ei ddefnyddio er mwyn ariannu cynlluniau cydgyfeiriant pan ddaw'r cyfleoedd i'n rhan.
- 6.4 Gellir ariannu £337,830 o hwn o'r arian grant cymell perfformiad na ddefnyddiwyd hyd yma ac 'rwyf yn amcangyfrif hefyd y bydd yna £435,000 ar ol o'r adnoddau refeniw y rhoddwyd heibio er mwyn cynorthwyo gyda'r rhaglen gyfalaf y gellir ei ddefnyddio yn 2010/11 ar sail unwaith ac am byth i ariannu'r gofynion yma.
- 6.5 Bydd angen i'r £136,330 arall ddod o falansau.

7 CYFALAF

- 7.1 Mae'r Cyngor bellach wedi mabwysiadu ei strategaeth asedau am y 10 mlynedd i ddod.
- 7.2 Mae adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella yn manylu ar y cynlluniau hynny y bwriedir eu cymeradwyo ar gyfer y £500,000 a roddwyd yn y strategaeth ar gyfer materion oedd am godi y tu allan i sylw'r strategaeth honno. Fe welir ar gyfer 2010/11 fod cyfanswm y cynlluniau hyn yn £568,460 sydd £68,460 yn uwch na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer.
- 7.3 Gellir dygymod a'r swm yma allan o'r adnodd refeniw a roddwyd o'r neilltu ar gyfer benthyca darbodus na fydd ei angen yn 2010/11.
- 7.4 Mae adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella hefyd yn cynnwys y cynlluniau y dylid eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2010/11 a

2011/12 sy'n deillio o'r penderfyniadau a gymerwyd gan y Cyngor o ran y Strategaeth Asedau . Byddem wedi disgwyl medru cyhoeddi rhaglen gyfalaf ar gyfer y tair blynedd gan gynnwys 2012/13 gan mai dyna oedd un o amcanion y strategaeth asedau – sef sicrhau cynllun hir dymor ar gyfer gwario ar ein hasedau.

- 7.5 Fodd bynnag, fel yr wyf wedi adrodd eisoes, bydd yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael i'r sector gyhoeddus yn sicr o leihau yn sylweddol yn 2011/12 a golyga hynny fod yna risg sylweddol i'r strategaeth asedau presennol.
- 7.6 Mae'r Bwrdd wedi penderfynu eisoes y dylid clustnodi unrhyw elfen o'r gyllideb wrth gefn na ddefnyddiwyd eleni ar gyfer benthyca darbodus yn y dyfodol (gweler cymal 1.4 uchod) ac fe fydd hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ni, ond ni fydd yn ddigonol ynddo'i hun i ateb y broblem fydd gennym a bydd angen ail ymweld gyda'r strategaeth pan fyddwn yn gwybod maint y gostyngiad tebygol yn 2010/11.
- 7.7 Mae angen taro balans felly rhwng ymrwymo adnoddau cyfalaf digonol i fedru cynllunio yn addas ar gyfer y tymor canolig a pheidio ag ymrwymo gormod rhag clymu ein hunain yn ormodol.
- 7.8 Argymhellir felly ein bod yn ymrwymo rhaglen dwy flynedd a nodir isod sut y byddwn yn cyllido'r rhaglen honno.

Tabl 6
Cyllido rhaglen gyfalaf 2010/11 a 2011/12

£'000	2010/11	2011/12
Anghenion cyfalaf	15,787	18,642
I'w ariannu gan		
Adnoddau cyfalaf sylfaenol yn y setliad	9,867	9,867
Cyfraniad o reserfau penodol	325	424
Grant gwella ysgolion	400	
Derbyniadau cyfalaf	3,129	2,117
Cyfraniad o refeniw	2,066	734
Benthyca darbodus	-	5,500
Cyfanswm ariannu	15,787	18,642

8 BALANSAU A RESERFAU PENODOL

- 8.1 Rhagwelir bellach y bydd gennym falansau o £7.77m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (yn amodol ar yr hyn fydd yn digwydd gyda chyllidebau rhwng nawr a diwedd y flwyddyn).
- 8.2 Bydd angen defnyddio £136,330 i ariannu materion unwaith ac am byth yn y strategaeth ar gyfer 2010/11 (gweler cymal 6.5 uchod), fydd yn gadael tafluniad o £7.6m erbyn diwedd 2010/11.

- 8.3 Fel y nodais yn fy adroddiad blaenorol, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog sydd o'n blaenau byddwn yn argymhell yn gryf ein bod yn cadw'r swm yma y tu cefn i ni fel balans darbodus er mwyn medru dygymod ag unrhyw broblemau allasai godi. Yn wyneb eu natur unwaith ac am byth ni fyddai defnyddio balansau ond yn gohirio gorfod wynebu problem wrth gwrs.
- 8.4 Nodais yn fy adroddiad blaenorol hefyd ein bod yn edrych am gyfleoedd i fuddsoddi mewn gweithgareddau trawsnewidiol er mwyn arbed.
- 8.5 Yn ystod yr adolygiadau cyllidebau chwarterol mae'r Bwrdd eisoes wedi medru clustnodi ychydig dros £1m ar gyfer y gronfa yma.
- 8.6 Wrth adolygu'r ddarpariaeth a roddwyd wrth gefn ar gyfer cynllun caledi ariannol y Cyngor yn sgil yr adolygiad tal, a'r ffaith ein bod bellach yn ystyried ychwanegu dros £800,000 at y gyllideb barhaol ar gyfer cymhorthyddion dosbarth, ystyrir y gellir bellach rhyddhau £2.5m o'r reserf gwarchodaeth.
- 8.7 Byddwn yn argymhell fod y swm yma hefyd yn cael ei ychwanegu at y Gronfa Trawsnewid gyda'r defnydd i'w benderfynu gan y Bwrdd.
- 8.8 Ar 28 Ionawr bu'r gweithgor craffu materion cyllidol yn cwrdd am y tro olaf i ystyried reserfau penodol y Cyngor. Gwelir cofnod o'u cyfarfod yn Atodiad 2.
- 8.9 Wrth graffu'r holl reserfau penodol bu i'r gweithgor adnabod cyfleoedd i leihau ar rai reserfau er mwyn eu defnyddio yn y dyfodol i gwrdd â bygythiadau penodol unwaith ac am byth. Enghraifft o hyn wrth gwrs fydd y gostyngiad yn yr adnoddau cyfalaf fydd ar gael a gofynnir i'r Pwyllgor gadarnhau argymhellion y gweithgor.

9 Y DRETH GYNGOR

- 9.1 Bydd angen i'r Pwyllgor ystyried a yw'n fodlon gyda'r tybiaethau a gymerwyd wrth baratoi'r gyllideb ond gan gymered fod y pwyllgor yn fodlon gyda hwynt, byddai hyn yn arwain at gyllideb fel yr hyn a nodir yn atodiad 3.
- 9.2 Fe welir fod hyn yn arwain at gynnydd yng nghyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol o 2.77%; cynnydd yn y gyllideb addysg o 2.35% (gyda'r gyllideb ysgolion datganoledig yn cynyddu 2.3%) a gweddill y gwasanaethau yn wynebu **gostyngiad** cyfartalog o 4%.
- 9.3 Y penderfyniad sydd angen ei wneud wedyn yw pa falans i'w daro rhwng arbedion y dyfodol a chynyddu'r Dreth Gyngor.

- 9.4 Atgoffaf y pwyllgor mai polisi'r Cyngor yw ceisio cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i'r cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru dros oes y Cyngor.
- 9.5 Er nad oes gennym unrhyw ffigyrau pendant, o'r wybodaeth a gafwyd ar lafar, disgwyliaf i gyfartaledd cynnydd y Dreth Gyngor ar draws Cymru fod rhwng tua 3.3% a 3.8% eleni gyda rhai cynghorau yn ceisio gostwng y cynnydd i ychydig o dan 3%.
- 9.6 Oherwydd bod sefyllfa'r Cyngor ychydig yn well yn 2010/11 na'r hyn a ragwelwyd yn Rhagfyr (gweler cymal 2.1 am y gymhariaeth) a chan fod y Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth i ddarganfod arbedion cyfwerth a £4.05m yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr, gellir cyfrifo mai cynnydd o 2.96% sydd bellach ei angen i sicrhau cyllideb gytbwys yn 2010/11 pe byddem yn ystyried y flwyddyn honno ar ben ei hun.
- 9.7 Fodd bynnag rhaid cofio fod yna ddarogan yr angen i ddarganfod arbedion pellach o £12m yn 2011/12 a 2012/13 gyda'i gilydd gyda £11.6m wedi ei adnabod hyd yma. Fel y nodir yng nghymal 3.3 mae yna bosibilrwydd y gallasai fod yn uwch a byddwn yn argymhell y dylid achub ar y cyfle nawr i helpu'r sefyllfa.
- 9.8 Dylid ystyried felly i ba raddau mae'r Pwyllgor yn dymuno manteisio ar y gallu i osod Treth Gyngor isel yn 2010/11 ynteu a yw'n dymuno cadw'r cynnydd o gwmpas cyfartaledd Cymru (neu unrhyw ffigwr uwch na 2.96%) er mwyn achub ar y cyfle i sefydlu mwy o hyblygrwydd ariannol ar gyfer wynebu'r dyfodol ariannol ansicr a thrwy hynny, lleihau maint yr arbedion y byddwn angen eu darganfod yn y cyfnod yma.
- 9.9 Nodaf isod amrediad o lefelau Treth Gyngor sydd yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd a osodwyd yn Rhagfyr gan nodi lefel yr adnodd fyddai ar gael i leihau'r pwysau ar arbedion 2011/12 a 2012/13.

Tabl 7
Amrediad Treth Gyngor a'r cymorth fyddai ar gael yn 2011/12

Cynnydd	Trosglwyddo i 11/12 £'000
3.00%	20
3.25%	134
3.50%	247
3.75%	361
4.00%	475
4.25%	589
4.50%	703
4.75%	816
5.00%	930

10. PENDERFYNIADAU I'W HYSTYRIED GAN Y PWYLLGOR

10.1 Mae angen i'r Pwyllgor benderfynu ar y materion canlynol -

- a. A yw'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r gwaith a wnaed i herio'r costau fydd yn disgyn ar y Cyngor yn sgil allanoli tai cyngor ac yn cymeradwyo'r ddarpariaeth o £835,460 y bwriedir ei gydnabod yn y gyllideb [Cymal 4.6]?
- b. A yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r ddarpariaeth o £128,890 yn y gyllideb ar gyfer digolledu'r gwasanaethau perthnasol am golled cytundeb glanhau allanol [Cymal 4.8] ?
- c. A yw'r Pwyllgor yn cytuno y dylid manteisio ar unrhyw gyfle rhesymol i wneud cyfraniad unwaith ac am byth i'r Gronfa Bensiwn i leihau effaith ar y cyfraniad cyflogwr yn y prisiad nesaf gan gynnwys defnyddio unrhyw falansau Cyfrif refeniw Tai fydd yn trosglwyddo i ni at y pwrpas hwnnw [Cymal 4.13] ?
- ch. A yw'r Pwyllgor yn cytuno y dylid gofyn i reolwyr yr unedau perthnasol i ystyried sut y gellir sicrhau cost uned is yn sgil allanoli gwasanaethau [Cymal 4.15] ?
- d. A yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r ychwanegiadau cyllidebol a nodir yng nghymal 5 gan gynnwys £600,000 i'r gwasanaeth ysgolion ac £850,000 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cynorthwyo gyda'r pwysau ar gyllidebau eleni ?
- dd. A yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer cyllidebau unwaith ac am byth a'r dull ariannu a nodir yng nghymal 6 yr adroddiad ?
- e. A yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer y rhaglen gyfalaf a'r dull ariannu [cymal 7.8] ?
- f. A yw'r pwyllgor yn cytuno y dylid manteisio ar y cyfle i osod y swm fydd yn cael ei ryddhau o'r reserf gwarchodaeth yn y reserf trawsnewid ? [Cymalau 8.6 ac 8.7].
- ff. A yw'r pwyllgor yn cymeradwyo cynigion y gweithgor craffu materion cyllidol parthed y reserfau penodol ? [Cymalau 8.8. ac 8.9 ac Atodiad 2]
- g. A yw'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r gyllideb arfaethedig a nodir yn Atodiad 3 a'r cynnydd/gostyngiadau a welir yn y gwasanaethau unigol [Cymal 9.1 ac Atodiad 3].
- ng. Beth yw barn y pwyllgor ynglŷn â'r lefel Dreth Gyngor yn wyneb y diffygion y byddwn yn debygol o'u hwynebu yn 2011/12 a 2012/13 ? [Gweler rhan 9 yr adroddiad].

ATODIAD 1

Costau cefnogol na ellir eu dileu yn sgil allanoli Tai Cyngor

Gwasanaeth	Ad-daliad cyfredol £	Costau y gellir eu dileu/trosglwyddo /parhau i ddarparu gwasanaeth	Ad-daliadau ar unedau canolog £	Costau na ellir eu dileu £
Adnoddau Dynol	132,400	81,920	20,990	29,490
Archwilio Allanol	21,740	-	-	21,740
Pensiynau Ychwanegol	13,220	-	-	13,220
Yswiriant	257,820	176,070	-	81,750
Cyllid	357,150	239,490	21,360	96,300
Cyfieithu a Chyfreithiol	142,180	131,900	1,400	8,880
Democratiaeth	98,310	-770	33,960	65,120
Darparu a Hamdden	92,330	92,330	-	-
Gofal Cwsmer	249,070	127,900	20,350	100,820
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	399,770	399,770	-	-
Cyfarwyddwyr Corfforaethol	38,270	-2,770	2,510	38,530
Strategaeth a Gwella	153,120	-5,380	22,820	135,680
Corfforaethol eraill	2,330	-	-	2,330
Cyfanswm	1,957,710	1,240,460	123,390	593,860
		Cyfanswm	£717,250	

**Cofnod cyfarfod y gweithgor Materion Arbenigol Cyllid
28 Ionawr 2010**

Presennol : Cynghorydd Dylan Edwards (Arweinydd Portffolio)

Cynghorydd J. G Jones, Cynghorydd Dewi Llewelyn, Dilwyn Williams
(Cyfarwyddwr Corfforaethol) Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)
William Jones (Uwch Reolwr Cyllid) .

1. Yn dilyn ystyriaeth o'r holl reserfau penodol gan y gweithgor yn ol ym mis Mai 2009 nodwyd eu bod wedi dewis 36 o gronfeydd i ymchwilio iddynt yn ddyfnach.
2. Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Cyllid daflenni manwl yn nodi pwrpas, hanes ariannol, a'r bwriad ar gyfer y dyfodol ar gyfer pob un o'r 36.
3. Cyfwelwyd y Pennaeth Gwasanaeth Darparu a Hamdden i gael mwy o wybodaeth am Gronfa Rhif 8 (Cronfa Contractau); Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer Cronfa Rhif 6 (Rheoli Risgiau) a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar gyfer Cronfa 2 (Hunan Yswiriant).
4. Yn dilyn ystyriaeth o'r 36 cronfa dan sylw nodwyd y canlynol -
 - i) Cronfa 1 (Cronfeydd Adnewyddu) - y dylid ystyried cyfuno'r rhain fel bod modd cydgyferbynu'r amrywiol broffiliau a lleihau'r balans o tua £1.6m.
 - ii) Cronfa 2 (Cronfa Hunan Yswiriant) - yn wyneb proffil y gorffennol y dylid ystyried lleihau'r cyfraniad blynyddol o £100,000 y flwyddyn (i gynorthwyo gydag arbedion corfforaethol) a lleihau'r balans cyfredol o £1.5m.
 - iii) Cronfa 6 (Cronfa Rheoli Risgiau) - y dylid gadael hon fel y mae am nawr gan ail ymweld rhyw ben yn y dyfodol.
 - iv) Cronfa 8 (Cronfa Contractau) - yn wyneb y ffaith nad oedd angen hon bellach am y pwrpas y'i sefydlwyd y dylid ei dileu gan osod y balans o £152,000 o'r neilltu.
 - v) Cronfeydd 11,12,21 a 22 - nodwyd gan y gweithgor nad oedd angen y rhain am eu pwrpas gwreiddiol ond fod y gwasanaethau dan sylw wedi eu defnyddio i gyflawni blaenoriaethau eraill y Cyngor.
 - vi) Cronfa 25 (Cronfa Gwastraff) - Nodwyd fod y gronfa yma yn rhan o strategaeth ariannol 2010/11 ac yn cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

- vii) Cronfa 26 (Cronfa Adolygiad Tal) – Nodwyd fod y gronfa yma hefyd yn rhan o strategaeth ariannol 2010/11 gydag elfen yn cael ei ddefnyddio i greu cronfa trawsnewid.
 - viii) Cronfa 29 (Cronfa Pontio) - yn wyneb y ffaith nad oedd angen hon bellach am y pwrpas y'i sefydlwyd y dylid ei dileu gan osod y balans o £107,000 o'r neilltu.
 - ix) Cronfa 30 (Cronfa gwarchod gorwariant) - yn wyneb y ffaith nad oedd angen hon bellach am y pwrpas y'i sefydlwyd y dylid ei dileu gan osod y balans o £80,000 o'r neilltu.
 - x) Cronfeydd 9, 14, 18 ac 19 (Amrywiol Gronfeydd gyda balansau bychan) - Nodwyd yn dilyn ymholiadau fod y gwasanaethau perthnasol wedi nodi nad oedd angen y cronfeydd yma ac y gellid felly gosod y balans cyfansawdd o £97,000 o'r neilltu.
5. Yn wyneb y sefyllfa ariannol anodd yr oedd y Cyngor yn ei wynebu dros y blynyddoedd i ddod 'roedd y gweithgor hefyd o'r farn y dylid cadw'r symiau a nodwyd uchod ar un ochr er mwyn cynorthwyo gydag unrhyw alw am adnoddau unwaith ac am byth allasai godi yn y blynyddoedd i ddod - er enghraifft y diffyg disgwyledig yn yr adnoddau cyfalaf.
- 6 Yn dilyn ystyriaeth o holl gronfeydd penodol y Cyngor ac eglurhaon perthnasol, o gymeryd y camau a nodir yn 4 uchod, 'roedd aelodau'r Gweithgor yn fodlon fod angen y cronfeydd a bod eu lefelau i weld yn rhesymol o gofio'r risgiau sy'n cael eu cyfarch ganddynt.

ATODIAD 3

Cyllideb arfaethedig 2010/11 fesul gwasanaeth

	Cyllideb Sylfaenol 2009/10 £'000	Trosglwyddo i'r Setliad £'000	Chwyddiant £'000	Increments £'000	Addasiad Eraill £'000	Addasiadau Cyllidebau Incwm £'000	Praeseptau, Llog, Cyfalaf a Demograffi £'000	Amrywiol £'000	Bidiau £'000	Arbedion £'000	Cyllideb Sylfaenol 2010/11 £'000
ADRANNAU											
Grŵp Arweinyddiaeth + Strategol a Gwella	2,996		(1)	(13)	109			(40)	(84)	(70)	2,897
Cyllid	4,401		(17)	17	(16)			(11)		(258)	4,116
Democratiaeth a Chyfriethiol	3,509		(28)	11	(3)			7	81	(99)	3,478
Gofal Cwsmer	6,835		(88)	33	166			(20)	(46)	(203)	6,677
Adnoddau Dynol	3,379		8	9	(232)			(8)	224	(166)	3,214
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	23,242		243	24	(20)	63		(10)	10	(983)	22,569
Rheoleiddio	7,246		36	0	9	15		(2)	(115)	(261)	6,928
Ymgynghoriaeth Gwynedd	710		(9)	0	(29)	180		(7)		(93)	752
Addysg (Heb ei ddatganoli)	18,827		142	11	173			(34)	291	(109)	19,301
Ysgolion Datganoledig	60,187	469	1,233	66	274				300	(478)	62,051
Datblygu'r Economi a Chymuned	3,769		21	7	(10)	(5)		9		(226)	3,565
Gwasanaethau Cymdeithasol	49,411	552	528	(3)	14		231	(17)	939	(310)	51,345
Tai	1,385		(1)	(1)	1			(3)	(18)	(112)	1,251
Darparu a Hamdden	2,634		(295)	48	(2)			131	(23)	(249)	2,244
Cyfanswm Adrannau	188,531	1,021	1,772	209	434	253	231	(5)	1,559	(3,617)	190,388
Materion corfforaethol a chyfalaf	26,430	348	765	(30)	(919)		117	672	4	(434)	26,953
CYFANSWM GROS =	214,961	1,369	2,537	179	(485)	253	348	667	1,563	(4,051)	217,341
Balansau a Reserfau Penodol	(3,123)				485				1,215	855	(568)
CYFANSWM NET =	211,838	1,369	2,537	179	0	253	348	667	2,778	(3,196)	216,773